Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

# TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GWE

**Dyddiad y Cyfarfod** 15 Chwefror 2023

---

**PWNC**

Eitem 5: CYLLIDEB 2022/2023 – MONITRO CHWARTER 3

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad ar gyfer y Trydydd Chwarter o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2022/23.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Darparwyd diweddariad i aelodau'r Cydbwyllgor ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidebol 2022/23.. Ar sail gwariant ac incwm y trydydd chwarter ac amcangyfrifon yn seiliedig ar eglurhad rheolwyr, mae'r adolygiad yma yn rhagweld sefyllfa lled niwtral gyda tanwariant net o (£27,423) erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2022/23. Nodwyd y rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y CYDBWYLLGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

# TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GWE

**Dyddiad y Cyfarfod** 15 Chwefror 2023

**PWNC**

Eitem 6: CYNLLUN GwE 2023-24 (CYLLIDEB SYLFAENOL)

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer y flwyddyn gyllidebol 2023/24 fel y'i chyflwynir yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae angen cyflwyno cyllideb sylfaenol GwE 2023/24 i'r Cyd-bwyllgor i'w mabwysiadu. Argymhellwyd sefydlu cyllideb o £17,993,147.00 ar gyfer 2023/24 sef yr un swm ag yn 2022/23.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y CYDBWYLLGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

# TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GWE

**Dyddiad y Cyfarfod** 15 Chwefror 2023

**PWNC**

Eitem 7: CYNLLUN BUSNES 2022-2023: MONITRO CHWARTER 3

**PENDERFYNIAD**

- Cymeradwyo a derbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 3.
- Trafodaeth bellach ar 'Strategaeth i gefnogi ymwneud rhieni a'r gymuned' o fewn Amcan 4 y cynllun: 'Ysgolion Cryf a Chynhwysol', mewn cyfarfod o'r Cyd-Bwyllgor yn y dyfodol.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE yn sicrhau eglurder a chytgord strategol wrth gyflawni blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Adroddir yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes Rhanbarthol i'r Cyd-bwyllgor.

Rhoddwyd ystyriaeth i Amcan 4 y cynllun a phenderfynwyd cael trafodaeth manwl arno mewn cyfarfod yn y dyfodol o ran Strategaeth i gefnogi ymwneud rhieni a'r gymuned.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y CYDBWYLLGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-bwyllgor.

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

# TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GWE

**Dyddiad y Cyfarfod** 15 Chwefror 2023

**PWNC**

Eitem 8: DATGANIAD YSGRIFENEDIG: GWELLA YSGOLION A'R DIRWEDD O RAN GWYBODAETH – GWEINIDOG Y GYMRAEG AC ADDYSG.

**PENDERFYNIAD**

Cyflwynwyd yr eitem yma er gwybodaeth ar gyfer yr aelodau. Penderfynwyd gwahodd Gweinidog Y Gymraeg ac Addysg i gyfarfod arbennig o'r Cyd-bwyllgor i gael trafodaeth am addysg ar draws rhanbarth y gogledd.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ar 19 Ionawr 2023, cyhoeddodd Y Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ddatganiad ysgrifenedig: 'Gwella ysgolion a'r dirwedd o ran gwybodaeth' oedd yn amlinellu'r camau nesaf o ran datblygu ecosystem/tirwedd data a gwybodaeth newydd. Rhannwyd pryderon am amseriad a chynnwys y datganiad.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y CYDBWYLLGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-bwyllgor.

# TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GWE

**Dyddiad y Cyfarfod** 15 Chwefror 2023

**PWNC**

Eitem 9: PROSIECT EIN LLAIS NI.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad a'r cynlluniau i ddatblygu'r prosiect yn unol â'r targedau a osodwyd gan Llywodraeth Cymru.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Adroddwyd ar lwyddiant prosiect Ein Llais Ni a rhannwyd cynlluniau ar gyfer ehangu'r gwaith ymhellach. Cymeradwywyd y cynlluniau er mwyn cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y CYDBWYLLGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-bwyllgor.

# TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GWE

**Dyddiad y Cyfarfod** 15 Chwefror 2023

**PWNC**

Eitem 10: CALENDR CYFARFODYDD 2023-24.

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd ar galendr cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn 2023-24.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyflwynwyd y calendr er gwybodaeth yn dilyn ymgynghori â chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru er mwyn osgoi unrhyw gyd-daro â
chyfarfodydd Cyngor.. Cafwyd trafodaeth i gynnal y cyfarfodydd hyn fel cyfarfodydd aml-leoliad (dros Zoom ac o Swyddfeydd GwE ym Mae Colwyn) yn y dyfodol os yw'r cyfarpar yn caniatáu hynny.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y CYDBWYLLGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru er mwyn osgoi unrhyw wrth-daro â chyfarfodydd Cyngor.